

# Cynllunio Eich Datganiad Personol

**Y datganiad personol yw eich cyfle i ddweud wrth y Tiwtoriaid Derbyn amdanoch chi, eich sgiliau a'ch nodweddion a pham fod gennych ddiddordeb yn eich pwnc dewis.**

Mae'n rhoi cyfle i chi ddangos y gwahaniaeth rhyngoch chi a myfyrwyr eraill, a gwneud i'ch hunan sefyll allan ymhlith yr ymgeiswyr eraill. Mewn rhai achosion, gallech chi fod yn cystadlu yn erbyn llawer o fyfyrwyr eraill am gyrsiau poblogaidd, felly ceisiwch sicrhau eich bod chi'n creu'r argraff orau posib.

## **Gofynnwch y cwestiynau yma i chi'ch hunan:**

- Pam ddylen nhw roi lle i chi ar eu cwrs?
- Beth sy'n eich gwneud chi'n wahanol i'r ymgeiswyr eraill?
- Sut gallwch ddangos eich gwbyodaeth am y cwrs a'ch dealltwriaeth ohono?

## **Barn ein Tiwtoriaid Derbyn**

**Mae'r datganiad personol yn rhan hanfodol o'r broses dderbyn wrth benderfynu a gynigir lle yng Nghaerdydd i fyfyrwr.**



*"Gan fod llawer o fyfyrwyr yn cael cynnig lle yn y brifysgol heb gyfweiliad, mae'r datganiad personol yn ffordd ddelfrydol o ddangos pa nodweddion personol a sgiliau sydd gennych i'ch helpu i sicrhau lle ar gwrs. Yn ei hanfod, mae'n gallu eich helpu i sefyll allan o blith yr holl fyfyrwyr eraill a allai fod yn disgwyl cael yr un graddau academiaidd â chi. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, gall y datganiad personol fod yn sail ar gyfer rhai o'r cwestiynau a ofynnir i chi, felly cofiwch gadw copi i gyfeirio ato."*



**A oeddech yn gwybod bod gan UCAS feddalwedd i sicrhau bod pob datganiad personol wir yn 'bersonol'? Bydd unrhyw arwyddion o lôn-ladrad yn dod i'r amlwg, a bydd y prifysgolion yn cael gwybod amdanynt.**



## Beth sydd angen i chi ei gynnwys?

**Dyma'r pethau bydd Tiwtoriaid Derbyn eisiau eu gwybod amdano chi:**

**Pam ydych chi eisiau astudio'r pwnc hwn/ y pynciau hyn?**

- Ydy hwn yn bwnc yr ydych wedi'i astudio yn yr ysgol neu'r coleg? Os felly, sut mae eich astudiaethau presennol yn ymwneud â'r cwrs yr ydych wedi'i ddewis?
- Gwybodaeth am y maes pwnc/proffesiwn – beth ydych wedi'i ddysgu am y pwnc hwn? Pa ddarllen cefndirol ydych chi wedi'i wneud?
- Cyfeirwch at yr hyn sydd o ddiddordeb i chi yn y pwnc o'ch dewis a'r hyn rydych chi'n awyddus i ddysgu mwy amdano.

## Cofiwch ddangos brwdfrydedd/ angerdd ynghylch y pwnc!

**Pa brofiad perthnasol sydd gennych chi?**

- Profiad gwaith/gwaith rhan-amser/rolau gwirfoddol? Os felly, beth ddysgoch chi? Siaradwch yn hyderus am eich profiad a'r sgiliau yr ydych wedi'u datblygu.
- Beth arall ydych wedi'i wneud ynghylch y cwrs? Mae'n bwysig dweud wrthym am yr hyn yr ydych wedi'i wneud, yn ogystal â'r hyn a ddysgoch chi a sut bydd y sgiliau hyn yn eich helpu ar y cwrs.

**Beth arall?**

- Hobïau a diddordebau – beth arall ydych chi'n ei wneud yn eich amser rhydd sy'n dangos y sgiliau a'r rhinweddau allweddol y gofynnir amdanynt?
- Amcanion eich blwyddyn i fwrdd os yw'n berthnasol.
- Dyheadau gyrfaoel, os ydych yn cyflwyno cais am gwrs galwedigaethol. Peidiwch â themlo bod angen nodi unrhyw beth os nad ydych yn gwybod eto.



**Oeddech chi'n gwybod mai dim ond un datganiad personol y gallwch chi ei lunio hyd yn oed os ydych yn gwneud cais i wahanol gyrsiau/prifysgolion?**



### Cofiwch wneud y canlynol

**Ymchwil** – mae hyn yn dangos eich gwybodaeth a'ch ymrwymiad i'r cwrs

**Canu eich clodydd eich hun!** – cofiwch fod angen i chi fod gam o flaen yr ymgeiswyr eraill

**Bod yn glir ac yn gryno** – gwnewch yn siŵr bod pob pwynt yn berthnasol

**Cynllunio eich datganiad** – cofiwch y rhagarweiniad a'r diweddglô

**Gwirio eich sillafu a'ch gramadeg** – gofynnwch i rywun arall brawfddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw gamgymeriadau

**Cyflwyno'r cais ar amser** – cewch wybod am ddyddiad cau eich ysgol/coleg



### Peidiwch â gwneud y canlynol

**Trafod sefydliad unigol** oni bai eich bod yn cyflwyno cais i un yn unig – bydd hyn yn eich rhoi dan anfantis gyda rhai eraill

**Bychanu eich hun** – byddwch yn gadarnhaol ac yn hyderus am eich hun a'r cwrs yr ydych yn cyflwyno cais amdano

**Dweud celwydd na llên-ladrata** – bydd UCAS yn hysbysu'r prifysgolion o hyn.



**Oeddech chi'n gwybod bod pob datganiad personol yn gallu cynnwys 47 o linellau neu 4000 o nodau ar y mwyaf? Byddwch yn glir ac yn gryno felly.**

# Rwy'n bwriadu astudio:



**1** Beth am y pwnc hwn sydd o ddiddordeb i mi?


**3** Pa brofiad perthnasol sydd gen i?


**2** Pam fy mod i eisiau astudio'r pwnc?


**4** Beth ydw i'n ei wybod am y cwrs?


## Camau at ddatganiad personol perffaith

### Gwnewch eich gwaith ymchwil...

- Dewiswch eich cwrs
- Gwiriwch y gofynion mynediad
- Ewch i ddiwrnodau agored
- Cynlluniwch eich datganiad

### Ysgrifennwch e...

- Lluniwch ddrafft
- Prawfddarllenwch y gwaith
- Gwnewch newidiadau a'i ddiweddarau
- Dangoswch ef i'ch rhieni/gwarcheidwaid, eich athrawon a/neu'ch brodyr a'ch chworydd i'w wirio
- Gwnewch newidiadau terfynol a chwblhau'r drafft olaf

### Anfonwch e...

- Torrwch a gludwch eich datganiad i mewn i'ch cais yn [ucas.com](http://ucas.com)
- Llenwch gais a'i anfon at eich athrawon er mwyn iddynt ychwanegu geirda ato

### Cofiwch...

- Os oes gennych gyfweiliad – ailddarllenwch eich datganiad oherwydd efallai cewch eich holi am yr hyn yr ydych wedi'i ysgrifennu ynddo

# Diddordebau, Profiad Gwaith a Sgiliau

<b>Profiad gwaith/ diddordeb</b>	>				
		∨	∨	∨	∨
<b>Beth oedd yn ei gynnwys?</b>	>				
		∨	∨	∨	∨
<b>Pa sgiliau a ddysgais i?</b>	>				
		∨	∨	∨	∨
<b>Sut bydd y profiad hwn / y sgiliau hyn o gymorth i mi yn y brifysgol?</b>	>				

## Rhestr Wirio UCAS

- Ymchwiliwch i'r cwrs fel eich bod yn hyderus mai hwnnw yw'r un iawn i chi
- Gwiriwch fod y gofynion mynediad yn cyfateb i'ch graddau disgwylidig
- Ewch i ddiwrnodau agored
- Cofrestrwch gydag UCAS
- Dewiswch eich 5 cwrs/prifysgol
- Ysgrifennwch eich datganiad personol
- Dylech ei ddangos i'ch rhieni/gwarcheidwaid, athrawon a/neu'ch brodyr a chworydd i'w wirio
- Gofynnwch am eirida gan eich ysgol/coleg
- Talwch y ffi ymgeisio i'ch ysgol/UCAS
- Anfonwch eich cais mewn da bryd



Oeddech chi'n gwybod mai Hydref 15 yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer Deintyddiaeth, Meddygaeth a Milfeddygaeth a Rhydychen/Caergrawnt? Cofiwch ofyn i'ch athro pryd mae dyddiad cau UCAS yn eich ysgol.

## Rhagor o wybodaeth...

[www.caerdydd.ac.uk/gwneudcais](http://www.caerdydd.ac.uk/gwneudcais)  
[www.ucas.com](http://www.ucas.com)

I dderbyn newyddion misol a'r wybodaeth ddiweddaraf am astudio, cofrestrwch yn:  
**[www.caerdydd.ac.uk/diweddariadau-ar-astudio](http://www.caerdydd.ac.uk/diweddariadau-ar-astudio)**